Cyngor
sir ddinbych
denbighshire
County Council

# COFNOD O BENDERFYNIAD GAN AELOD CABINET

**Penderfyniad a wnaed gan:**

Aelod Arweiniol dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**Dyddiad y penderfyniad:**

3 Hydref 2022

**Dyddiad cyhoeddi'r penderfyniad:**

03 Hydref 2022

**Penderfyniad:**

ADRODDIAD AR SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD GOGLEDD CYMRU - ADRODDIAD DRAFFT 2022

Bod yr Aelod Arweiniol yn cymeradwyo Adroddiad Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru 2022 ar frys er mwyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn er cymeradwyaeth, yn sgil yr oedi a achoswyd gan y cyfnod o alaru.

**Bwriad y penderfyniad:**

I roi trosolwg o Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru 2022 (gweler Atodiad 1), sydd wedi cael ei lunio fel gofyniad dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Mae'n rhaid llunio un Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad rhanbarthol drafft ar gyfer Rhanbarth Gogledd Cymru a'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn ar gyfer pob un o'r 6 ardal Awdurdod Lleol a Bwrdd y Bwrdd Iechyd Lleol. Bydd fersiwn terfynol yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn mynd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i'w gymeradwyo'n derfynol ym mis Tachwedd 2022 cyn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**Rhesymau dros wneud y penderfyniad:**

I geisio cymeradwyaeth ar gyfer Drafft Terfynol Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad Gogledd Cymru.

**Cysylltiadau a ddatganwyd:**

Dim wedi'u datgan.

**Ymgynghoriad:**

Cymeradwywyd yr adroddiad gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ar 14 Gorffennaf 2022 ac mae wedi bod i'r Tîm Gweithredol Corfforaethol.

**Yr awdurdod i ddirprwyo'r penderfyniad i'r Aelod Cabinet:**

Gweler y Cynllun Dirprwyo.